# Triniaeth gynnal pemetrexed ar gyfer canser yr ysgyfaint di-gennog lle nad yw'r celloedd yn fach ar ôl pemetrexed a cisplatin

Awst 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir pemetrexed (alimta) fel triniaeth gynnal bosibl ar gyfer canser yr ysgyfaint di-gennog sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig lle nad yw'r celloedd yn fach mewn oedolion pan:

- nad yw eu hafiechyd wedi gwaethygu ar ôl 4 cylch o pemetrexed a cisplatin ac
- os oes ganddynt statws perfformiad Eastern Cooperative Oncology Group o 0 neu 1.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych ganser yr ysgyfaint di-gennog sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig lle nad yw'r celloedd yn fach, a bod eich meddyg yn credu mai pemetrexed yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai permetrexed fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gael pemetrexed nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

### Y cyflwr a'r driniaeth

Caiff canser yr ysgyfaint ei grwpio yn ddau brif fath o ganser, gan ddibynnu ar ei ymddangosiad o dan ficrosgop: canser yr ysgyfaint celloedd bach a chanser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach. Mae tri phrif fath o ganser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach: canser carsinoma celloedd cennog, adenocarsinoma a charsinoma celloedd mawr.

Mae canser sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig yn golygu ei fod wedi lledaenu i'r meinweoedd cyfagos neu i rannau eraill o'r corff.

Mae statws perfformiad yr Eastern Cooperative Oncology Group (ECOG) yn fesuriad o ba mor dda ydych chi. Mae statws 0 ECOG yn golygu eich bod yn egnïol iawn, mwy neu lai fel yr oeddech cyn eich salwch. Mae statws 1 yn golygu na allwch wneud gwaith corfforol trwm, ond gallwch wneud unrhyw beth arall.

Mae pemetrexed yn gyffur gwrthganser sy'n anelu at atal y canser rhag tyfu.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030 555
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200
- Cynghrair Canser yr Ysgyfaint y DU, 01675 477 605

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2108-9